

Gwobr Dilyniant **Telerau ac Amodau 2023**

CYMHWYSEDD

- Mae'r wobr hon ar gyfer myfyrwyr **Cartref** sy'n talu ffioedd.
- Mae'r wobr hon ar gyfer **myfyrwyr presennol** ar **gyrsiau israddedig sydd wedi cofrestru ar gyfer yr ail flwyddyn, ac wedi cwblhau Blwyddyn 1 eu cwrs yn 2023**, gyda chyfeiriad parhaol mewn **ardaloedd lle mae nifer y cyfranogwyr yn isel** fel y'u diffinnir gan Gyngorau Cyllido Addysg Uwch naill ai Cymru (CCAUC) neu Loegr (HEFCE). Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gedwir ar eich cofnod myfyriwr i bennu eich cod post parhaol.
- **Nid oes angen i chi wneud cais am y wobr hon**, os ydych yn gymwys, byddwch yn cael eich ystyried.

CYFYNGIADAU

- Gallwch gael ei ystyried ar gyfer Gwobr Dilyniant a ddyrennir i'r ysgol academiaidd yr ydych wedi'ch cofrestru ynddi yn unig.
- **Nifer cyfyngedig o wobrau sydd ar gael. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd â'r marciau canrannol uchaf ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2022/23** (data a gedwir gan y Gofrestrfa Academiaidd). Os bydd gan ddau fyfyriwr sy'n cystadlu am y wobr o fewn yr un ysgol academiaidd farciau canran cyfartalog terfynol tebyg, defnyddir ystod o feini prawf i gwblhau'r dyraniad gan gynnwys incwm y cartref (isaf), dyddiad ymateb i Brifysgol Metropolitan Caerdydd (cynharaf), dyddiad ymgeisio i Brifysgol Metropolitan Caerdydd (cynharaf) a/neu farciau Lefel 3 (tariff uchaf).
- Ni fydd y wobr yn cael ei dyrannu i unrhyw un sydd wedi ailsefyll o'r blaen neu sydd ar hyn o bryd yn **ail-sefyll**, yn **ailadrodd** unrhyw ran o'u hasesiadau cwrs, neu sydd wedi cael ei **dynnu'n ôl** neu ei **atal** o'u hastudiaethau.
- Nid yw'r wobr hon ar gael i'r rhai sy'n astudio ar **raglenni a ariennir gan y GIG neu Lywodraeth Cymru**.
- Nid yw'r wobr hon ar gael i'r rhai sy'n astudio mewn **colegau breiniol**. Cysylltwch â'ch coleg lleol i drafod argaeledd bwrsariaeth ac ysgoloriaethau.

GWOBR

- Bydd gohebiaeth dyfarnu yn cael ei hanfon i'ch **cyfeiriad e-bost myfyriwr** gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.
- **Rhaid i chi fod wedi cofrestru** ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd erbyn 31 Gorffennaf i dderbyn cadarnhad o'r wobr.
- Bydd y Wobr Dilyniant yn cael ei ddyfarnu fel gwobr ariannol o £1,000 i bob myfyriwr, a delir yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc.

- Rhaid i fyfyrwyr roi manylion banc i'r brifysgol erbyn 9 Awst 2023 ni fyddant yn gymwys i dderbyn y wobr.
- Sylwer, ni fydd y wobr hon o reidrwydd yn cael ei weithredu mewn blynyddoedd academaidd pellach.